

Prif Swyddogion

Amodau a Thelerau Gwasanaeth Cyffredinol

1. Gwneir y penodiad yn ôl amodau a thelerau'r Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol, yn amodol ar unrhyw newid a wneir o dro i dro ac yn unol â hynny gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ôl ei ddisgresiwn.

2. **Cyflog**

Graddfa gyflog y swydd hon yw £85,000 - £95,000 y flwyddyn.

£85,000
£87,000
£89,000
£91,000
£93,000
£95,000

Fel arfer, bydd gweithwyr sy'n ymgeisio ac yn cael eu penodi, drwy broses recriwtio fewnol neu allanol, yn cael eu penodi ar waelod y raddfa a ddyrannwyd i'r swydd drwy'r broses werthuso swyddi. Dan amgylchiadau eithriadol, a phan fo rhesymau cryf ar sail tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad, gellir penodi gweithiwr newydd ar hicyn cyflog uwch, yn amodol ar uchafswm y raddfa.

3. Bydd Perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn meini prawf cytunedig bob chwe mis, a fydd yn cynnwys cyrraedd targedau perfformiad mewn perthynas â phrif gyfrifoldebau'r swydd.

4. **Treuliau**

Bydd costau teithio a chynhaliadau, ynghyd â thaliadau eraill y gellir eu gwneud, yn cael eu gwneud ar y sail a benderfynir gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol ac yn cyd-fynd â'r cytundeb cenedlaethol yr ychwanegir ato neu a ddiwygir yn lleol.

5. **Aelodaeth Broffesiynol**

Os yw cofrestru â chorff statudol yn un o ofynion y swydd, rhaid i chi gydymffurfio â'r safonau a'r codau ymarfer.

6. **Pensiwn**

- a. Bydd deiliad y swydd yn dod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn awtomatig, oni bai ei fod yn dewis gwneud ei drefniadau ei hun ar gyfer pensiwn preifat.
- b. Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrasio sy'n darparu pensiwn ar adeg ymddeol yn seiliedig ar wasanaeth a gronwyd a chyfartaledd eich enillion blynyddol dros eich aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- c. Mae cyfraniadau aelodau wedi'u bandio yn unol â thaliadau cyfwerth â llawn amser (sef 11.4% ym mis Ebrill 2017 - adolygir hyn yn flynyddol)

7. Oriau Gwaith

- a. Mae'r wythnos waith sylfaenol yn 37 awr.
- b. Fodd bynnag, ar gyfer swydd mor uchel, bydd gofyn i'r deiliad weithio faint bynnag o oriau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth, ac mae cyflog y swydd yn adlewyrchu'r gofyniad hwnnw.

8. Gwyliau

Mae blwyddyn wyliau'r Cyngor yn ymestyn o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Yr hawl gwyliau blynyddol yw 32 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus wrth iddynt ddigwydd.

9. Terfynu Contract

Mae'n rhaid i'r Prif Swyddog roi 3 mis o rybudd i'r Cyngor.

10. Swydd Dan Gyfyngiadau Gwleidyddol

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1989, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chynnal rhestr o swyddi a ystyrir yn rhai dan gyfyngiad gwleidyddol. Mae swydd y Prif Swyddog yn swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol.

11. Cyngor i Grwpiau Gwleidyddol

Ni fydd gofyn i'r Prif Swyddog gynghori unrhyw grŵp gwleidyddol yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol, o ran gwaith y grŵp neu waith y Cyngor, ac ni fydd gofyn iddo ychwaith fynychu unrhyw gyfarfod o grŵp gwleidyddol.

Ni fydd hyn yn rhagfarnu unrhyw drefniant i'r gwrthwyneb a ellir ei wneud mewn cytundeb â'r Cyngor ac sy'n cynnwys trefniadau diogelu digonol i gadw amhleidioldeb ei fusnes mewn perthynas â busnes y Cyngor Bwrdeistref Sirol.